# Cyngor Adnewyddu’r Economi

# Trechu Tlodi

## Cyflwyniad

1. Mae’r papur hwn yn egluro dull Llywodraeth Cymru o drechu tlodi, drwy ei Chynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi a Strategaeth Tlodi Plant Ddiwygiedig Cymru. Mae’r papur yn tynnu sylw at bwysigrwydd datblygu dull cydweithredol o weithredu a gweithio gyda phartneriaid allweddol. Mae’r papur yn gofyn cyfres o gwestiynau ynghylch sut y gallai Llywodraeth Cymru weithio gyda’r sector preifat, partneriaid cymdeithasol a Chyngor Adnewyddu’r Economi i sicrhau y canolbwyntir yn barhaus ar drechu tlodi a gwella canlyniadau i aelwydydd ag incwm isel.

## Y cefndir i ddull Llywodraeth Cymru o drechu tlodi

2. Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn darparu’r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer trechu tlodi yng Nghymru. Roedd y Mesur yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru, Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill i bennu amcanion ar gyfer gwella canlyniadau i deuluoedd ag incwm isel a datblygu strategaethau ar gyfer trechu tlodi plant. Cyflawnodd Gweinidogion Cymru y ddyletswydd hon yn 2011 wrth gyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant Cymru, a oedd yn pennu tri amcan penodol. Dyma’r amcanion: 1) Lleihau nifer y plant sy’n byw mewn aelwydydd heb waith; 2) Cynyddu sgiliau rhieni a phobl ifanc er mwyn iddynt allu cael cyflogaeth sy’n talu’n dda; a 3) Lleihau’r anghydraddoldebau o ran canlyniadau iechyd ac addysg a chanlyniadau economaidd plant a theuluoedd sy’n byw mewn tlodi, drwy wella canlyniadau’r bobl dlotaf.

3. Yn 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Roedd y Cynllun yn egluro camau gweithredu allweddol ac ymrwymiadau i drechu tlodi ar draws pob grŵp oedran yng Nghymru, ac nid ymysg plant a phobl ifanc yn unig. Cafodd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi ei ddiweddaru yn 2013, ac am y tro cyntaf gosododd dargedau a cherrig milltir penodol ar gyfer pob un o adrannau Llywodraeth Cymru. Roeddent yn cynnwys targedau a cherrig milltir a oedd yn ymwneud â’r blynyddoedd cynnar ym mywyd plentyn; gwella cyrhaeddiad addysgol ymysg disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim; lleihau nifer y bobl ifanc 16-18 oed ac 19-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant; trechu achosion o fod heb waith, drwy raglen Esgyn Llywodraeth Cymru (sy’n ceisio darparu 5,000 o gyfleoedd newydd o ran cyflogaeth a hyfforddiant i aelwydydd sydd heb waith); trechu anghydraddoldebau o ran iechyd drwy fynd i’r afael â’r ddeddf gofal gwrthgyfartal; a thargedau i gynyddu’r graddau y mae tai cymdeithasol fforddiadwy o safon ar gael.

4. O safbwynt diffinio tlodi, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r diffiniad canlynol: Gyda thlodi, rydym yn golygu'r cyflwr tymor hir o beidio â bod ag adnoddau digonol i fforddio bwyd, amodau byw neu amwynderau rhesymol neu gymryd rhan mewn gweithgareddau (megis mynediad at gymdogaeth a mannau agored deniadol) mae eraill mewn cymdeithas yn eu derbyn fel mater o drefn.

5. Y dangosydd allweddol a ddefnyddir i fesur tlodi yw canran yr aelwydydd sy'n byw ag incwm sydd islaw 60% o incwm canolrifol aelwydydd yn y DU (Ar Ôl Costau Tai). Mae incwm yn bwysig oherwydd ei fod yn adnodd allweddol sy'n galluogi aelwydydd i ddiwallu eu hanghenion.

6. Fodd bynnag, mae ffactorau eraill y mae angen eu hystyried hefyd heblaw incwm aelwydydd. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio cyfres ehangach o ddangosyddion i fesur canlyniadau aelwydydd ag incwm isel, yn rhan o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi a'r Adroddiad Blynyddol. Mae'r dangosyddion hynny'n adlewyrchu'r ysgogiadau polisi sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ac maent yn canolbwyntio ar addysg, iechyd, tai a sgiliau.

**Strategaeth Tlodi Plant Ddiwygiedig Cymru**

7. Roedd Strategaeth Tlodi Plant 2011 yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 2011 a 2014. Felly, ym mis Tachwedd 2014, bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynghylch cynnwys a chyfeiriad Strategaeth ddiwygiedig.

8. Roedd y gwaith o ddiwygio'r Strategaeth Tlodi Plant yn gyfle i Lywodraeth Cymru ystyried ai'r dull presennol o drechu tlodi yw'r dull cywir, a fydd yr amcanion strategol presennol yn cyflawni'r prif nod, sef dileu tlodi plant, ac a yw Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn sicrhau newid ar y cyflymder a'r raddfa sy'n ofynnol i wneud gwahaniaeth.

9. Mae'r Strategaeth Tlodi Plant Ddiwygiedig yn ailddatgan uchelgais Llywodraeth Cymru i ddileu tlodi plant erbyn 2020, ac ar yr un pryd mae'n cydnabod yr heriau sydd i ddod, yn enwedig yng ngoleuni effaith a maint diwygiadau lles a thoriadau ar wariant cyhoeddus. Mae'r Strategaeth hefyd yn ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflawni'r tri amcan strategol a oedd yn Strategaeth 2011, a nodir ym mharagraff 2 y papur hwn. Mae'r amcanion yn adlewyrchu'r hyn y mae'r dystiolaeth gyfredol yn ei ddweud wrthym ynghylch ble y gall Llywodraeth Cymru gael yr effaith fwyaf o safbwynt gwella canlyniadau teuluoedd ag incwm isel. Fodd bynnag, mae'r amcanion hyn yn fwy tebygol o gael effaith yn y tymor hwy. O ganlyniad, mae'r Strategaeth Ddiwygiedig hefyd yn cynnwys dau amcan newydd sy'n canolbwyntio ar wella amgylchiadau a chanlyniadau teuluoedd ag incwm isel "yn y presennol".

10. Dyma'r ddau amcan newydd sydd yn y Strategaeth Tlodi Plant Ddiwygiedig:

- Defnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael i greu economi a marchnad lafur gref sy'n cefnogi'r agenda trechu tlodi ac yn lleihau tlodi mewn gwaith yng Nghymru.

- Helpu teuluoedd sy'n byw mewn tlodi i gynyddu incwm eu haelwydydd trwy gyngor ynghylch dyledion a chyngor ariannol, camau gweithredu i fynd i'r afael â'r "premiwm tlodi" (lle mae aelwydydd yn talu mwy am nwyddau a gwasanaethau) a chamau gweithredu i liniaru effeithiau'r diwygiadau lles.

11. Tynnodd y gwerthusiad o ddull Llywodraeth Cymru o drechu tlodi plant (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014) sylw at y ffaith bod angen gwneud mwy i gysylltu nodau ein Strategaeth Tlodi Plant â strategaeth economaidd gyffredinol Llywodraeth Cymru. Roedd yr angen hwnnw hefyd yn fater allweddol a godwyd gan randdeiliaid allanol, gan gynnwys Grŵp Cynghori Allanol Llywodraeth Cymru ar Drechu Tlodi, yn ystod y cyfnod o ymgynghori ynghylch y Strategaeth. Mae cael economi a marchnad lafur gref a chanolbwyntio ar greu swyddi ac ar rôl gwahanol sectorau cyflogaeth yn hanfodol. Caiff hynny ei adlewyrchu erbyn hyn yn yr amcanion strategol a nodir uchod.

12. Yn ogystal â phennu amcanion newydd, mae'r Strategaeth Ddiwygiedig yn nodi pum blaenoriaeth allweddol ar gyfer cynorthwyo aelwydydd ag incwm isel "yn y presennol". Dyma'r pum blaenoriaeth: trechu tlodi bwyd; trechu tlodi mewn gwaith; cynyddu'r graddau y mae gofal plant ar gael a sicrhau ei fod yn fwy fforddiadwy; lliniaru effeithiau'r diwygiadau lles; a thai ac adfywio.

13. Ni ddylid ystyried y Strategaeth Tlodi Plant ar ei phen ei hun. Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn parhau'n adnodd allweddol y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio i gyflawni nodau ein Strategaeth Tlodi Plant. Bydd Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Gweithredu (y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2015) yn cynnwys camau gweithredu ac ymrwymiadau newydd i gyflawni'r blaenoriaethau y nodwyd eu bod bwysicaf o safbwynt trechu tlodi plant. Bydd gweithio gyda phartneriaid o bob rhan o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn parhau i lywio dull Llywodraeth Cymru o weithredu.

**Lefelau Tlodi yng Nghymru ar hyn o bryd**

14. Mae lefelau tlodi yng Nghymru yn parhau'n uchel ac yn anodd eu gostwng. Gwnaed rhywfaint o gynnydd yn ystod degawd cyntaf y ganrif hon i leihau nifer y teuluoedd sy'n byw mewn aelwydydd ag incwm sydd islaw 60% o incwm canolrifol aelwydydd yn y DU, ond yn fwy diweddar mae wedi bod yn anodd sicrhau'r lefel o newid sy'n ofynnol. Mae'r data diweddaraf ynghylch Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog yn dangos yr amcangyfrifir bod 700,000 o bobl yn byw mewn tlodi a bod 200,000 o'r rheini yn blant. Yn ystod y cyfnod o dair blynedd rhwng 2010/11 a 2012/13 (Ar Ôl Costau Tai) roedd 31% o blant, 24% o oedolion o oedran gweithio a 14% o bensiynwyr yn byw mewn tlodi yng Nghymru.

15. Mae cyfraddau tlodi yng Nghymru yn uwch yn gyson na chyfraddau tlodi yn Lloegr a'r Alban ar draws pob grŵp oedran.

16. Mae aelwydydd heb waith mewn perygl gwirioneddol o fyw mewn tlodi. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod nodweddion tlodi yng Nghymru yn newid. Er mai cyflogaeth sy'n cynnig y llwybr mwyaf cynaliadwy allan o dlodi (a bod cyflogaeth hefyd yn ffordd effeithiol iawn o arbed pobl rhag gorfod byw mewn tlodi parhaus) nid yw gwaith bob amser yn gwarantu y bydd pobl yn codi uwchlaw'r llinell dlodi. Mae tystiolaeth o ddadansoddiad a gyflawnwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree yn awgrymu bod nifer y bobl yng Nghymru sy'n awr yn byw mewn aelwydydd lle mae rhywun yn gweithio'n uwch na nifer y bobl sy'n byw mewn aelwydydd lle nad oes rhywun yn gweithio.

17. Ers datganoli, mae nifer y swyddi sydd yn y sector preifat wedi tyfu'n gynt yng Nghymru nag yng ngweddill y DU yn ei chyfanrwydd, ac mae cyfradd cyflogaeth Cymru hefyd yn cael ei chynnal ar lefel sy'n uwch o lawer na'i chyfartaledd yn y gorffennol. Er bod nifer y bobl sy'n dod o hyd i gyflogaeth wedi parhau i gynyddu, mae ffactorau megis y mathau o swyddi sydd ar gael (ee swyddi sy'n gofyn am lefel isel o sgiliau / swyddi rhan-amser), natur dymhorol cyfleoedd o ran cyflogaeth a lefelau cyflogau i gyd yn debygol o effeithio ar b'un a yw aelwydydd yn ennill digon o arian ai peidio i'w galluogi i ddod allan o dlodi. Mae mynd i'r afael â'r problemau hyn a lleihau nifer y bobl sy'n byw mewn tlodi er eu bod yn gweithio yn bethau y mae angen iddynt fod yn rhan bwysig o ddull cyffredinol Llywodraeth Cymru o weithredu. Mae cynyddu cyflogadwyedd pobl ifanc ac oedolion yng Nghymru yn hollbwysig, ond mae cynyddu'r graddau y mae cyfleoedd o ran cyflogaeth ar gael hefyd yn hollbwysig.

**Datblygu dull cydweithredol o weithredu**

18. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yn gyson na all drechu tlodi ar ei phen ei hun, ac mae cydweithredu a chanolbwyntio ar gyflawni canlyniadau cyffredin yn parhau'n brif flaenoriaeth.

19. Mae'r Strategaeth Ddiwygiedig yn cydnabod bod gan bartneriaid yn y sector preifat lawer i'w gynnig, yn enwedig o safbwynt creu swyddi, cynorthwyo aelwydydd ag incwm isel i gael cyflogaeth sy'n talu cyflog byw, cynnig trefniadau gweithio hyblyg, gofal plant a chyfleoedd i gamu ymlaen mewn gwaith. Mae'r rhaglen Esgyn, Twf Swyddi Cymru a chynlluniau prentisiaethau yn rhai enghreifftiau'n unig o'r modd y gall y sector preifat wneud cyfraniad pwysig. Mae cymalau cymdeithasol a dulliau caffael sy'n seiliedig ar Fudd i'r Gymuned, yn ogystal â chymorth ariannol i gymunedau lleol a grwpiau cymunedol, hefyd yn hanfodol.

20. Yn y Strategaeth Ddiwygiedig mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ymgysylltu ag ystod o gynrychiolwyr gwahanol o'r sector preifat a'r sector busnes yng Nghymru,

gyda'r bwriad o adnabod cyfleoedd i gydweithredu a chan ganolbwyntio ar amcanion allweddol y strategaeth hon. Mae trafod yr agenda trechu tlodi â Chyngor Adnewyddu'r Economi yn y lle cyntaf yn cynnig cyfle i symud y gwaith hwn yn ei flaen.

**Cwestiynau allweddol i'w trafod**

1. Ceir amcan strategol newydd yn Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru, sy'n cydnabod pwysigrwydd economi gref a'r modd y gall gwahanol sectorau gyfrannu at drechu tlodi mewn gwaith. Sut y gall Llywodraeth Cymru weithio gyda Chyngor Adnewyddu'r Economi i drechu tlodi mewn gwaith yng Nghymru, sy'n broblem gynyddol, a mynd i'r afael â symudedd cymdeithasol?

2. Mae Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi a Strategaeth Tlodi Plant Ddiwygiedig Llywodraeth Cymru yn cynnwys pwyslais penodol ar ddatblygu dull gweithredu sy'n seiliedig ar Fudd i'r Gymuned wrth ymdrin â phob agwedd ar gontractau caffael cyhoeddus yng Nghymru. Sut y mae dull gweithredu sy'n seiliedig ar Fudd i'r Gymuned yn cael ei roi ar waith gan bartneriaid yn y sector preifat? Sut y gall Cyngor Adnewyddu'r Economi gefnogi'r agenda hon ymhellach?

3. Roedd contractau dim oriau a phwysigrwydd Cyflog Byw yn themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr ymgynghoriad diweddar ynghylch y Strategaeth Tlodi Plant Ddiwygiedig. Sut y mae'r materion hyn yn cael eu hystyried ar hyn o bryd gan Gyngor Adnewyddu'r Economi?

4. Sut y gallwn weithio gyda phartneriaid cymdeithasol, y sector preifat a'r gymuned fusnes i liniaru effeithiau tlodi? Sut y mae partneriaid yn y sector preifat yn cynorthwyo cymunedau difreintiedig ar hyn o bryd? Sut y gallwn adeiladu ar y gwaith hwn? Sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â phroblemau megis tlodi bwyd?